Cyflwyno Newid Hinsawdd: Ddoe, Heddiw, ac Yfory

Gweithgaredd 2.1: Beth a wyddom am newid hinsawdd?

Oed: 8+

Nod
Gosod gwybodaeth gyffredinol am newid hinsawdd.

Bydd angen
Dau ddarn o bapur siart/papur siwgr gyda:

- ‘Newid hinsawdd – ein gwybodaeth’ wedi’i ysgrifennu ar un a
- ‘Newid hinsawdd – ein cwestiynau’ ar y llall

Beth i’w wneud
Gofynnwch i’r dosbarth godi eu dwylo os ydynt wedi clywed am ‘newid hinsawdd’ neu ‘gynhesu byd-eang’, ac yna trafodwch gyda hwy:

- Beth maent yn ei wybod amdano
- Cwestiynau sydd ganddynt amdano

Ysgrifennwch yr ymatebion ar y papur siart. Ar y cam hwn, derbyniwch eu holl syniadau a pheidiwch ceisio egluro nac esbonio. Mae’r gweithgareddau sy’n dilyn wedi’u cynllunio i lenwi rhai o’r bylchau.

Gosodwch y ddwy daflen siart i fyny er mwyn ychwanegu atynt yn ddiweddarach.

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu’r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.